



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad ynghylch Manylebau Perfformiad Switiau Toiled

Dogfen ymgynghori

Dyddiad: 8 Awst 2022



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu dan Drwydded y Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Tîm Gwasanaethau Dŵr,
Y Llawr Gwaelod,
Adeilad Seacole,
2 Marsham Street,
Llundain:
SW1P 4DF

Neu anfonwch e-bost i: drinkingwaterquality@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	4
2.1 Y gynulleidfa.....	5
2.2 Cwmpas daearyddol.....	5
2.3 Y corff sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad.....	5
2.4 Cydymffurfio ag egwyddorion ymgynghori.....	5
2.5 Cyfrinachedd a gwybodaeth am ddiogelwch data.....	6
3. Cynigion yr ymgynghoriad.....	6
3.1 Y cefndir.....	6
3.2 Y prif newidiadau.....	8
3.3 Mân gywiriadau a newidiadau.....	11
4. Effeithiau a thystiolaeth.....	11
4.1 Costau ariannol.....	11
4.2 Buddion heb fod yn ariannol.....	14
5. Galwad am dystiolaeth ynghylch toiledau sy'n gollwng.....	15
6. Y camau nesaf.....	16

Atodiadau

- A Manylebau'r Rheoleiddiwr a Thafenni Cod Prawf (A1 i A11)
- B Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Cyflwyniad

Mae safon ansawdd dŵr yfed y Deyrnas Unedig yn uchel iawn. Mae'r safonau ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus wedi eu gosod yn Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016 [Lloegr] a Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018 [Cymru]. Yn 2021, roedd cydymffurfiaeth cyflenwadau dŵr cyhoeddus â'r rheoliadau ansawdd dŵr yn 99.97% yn Lloegr, ac yn 99.98% yng Nghymru.

At hynny, er mwyn sicrhau bod dŵr yfed yn ddiogel hyd at y man lle caiff ei ddefnyddio, mae Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 (y Rheoliadau) yn rheoleiddio'r ffordd y caiff systemau dŵr eu dylunio, eu gosod a'u gweithredu. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ffitiadau dŵr fod o ansawdd a safon briodol ac addas ar gyfer yr amgylchiadau y cânt eu defnyddio ynddynt. Gellir cymeradwyo Manylebau'r Rheoleiddiwr hefyd sy'n rhoi manylion perfformiad a dilysrwydd. Caiff y Rheoliadau a Manylebau'r Rheoleiddiwr eu gorfodi gan gwmnïau dŵr yn eu hardaloedd.

Yn y blynyddoedd diweddar daeth nifer fechan i'r amlwg o enghreifftiau o halogi dŵr yfed pan wnaeth dŵr o sestonau toiled fynd yn ôl i mewn (neu lifo'n ôl i mewn) i system ddŵr yfed adeilad. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau arfaethedig gan Lywodraeth y DU a Gweinidogion Cymru ym Manyleb Perfformiad Switiau Toiled, y Fanyleb ar Atal Ôl-lifiad a Manylebau Rheoleiddiwr cysylltiedig eraill y cyfeirir atynt fel taflenni cod prawf (TCP). Bwriad y newidiadau hyn yw mynd i'r afael â'r digwyddiadau hyn o ôl-lifiad ac adlewyrchu elfennau newydd yn nyluniad switiau toiled.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r ymgynghoriad i gasglu tystiolaeth ynghylch falfiau toiled diffygiol, sy'n achosi colli dŵr. Mae arnom eisiau deall barn pobl a gweld beth y gellid ei wneud i alluogi gweithgynhyrchwyr i wella eu cynhyrchion i gwrdd â disgwyliadau perfformiad defnyddwyr.

2. Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 8 Awst 2022 ac yn cau ar 3 Hydref 2022. Ymgynghoriad 8-wythnos yw hwn.

Rydym yn annog yn gryf ymateb drwy ganolbwynt ymgynghori Gofod Dinasyddion Defra, offeryn ymgynghori ar-lein. Mae ymgynghoriadau'n denu lefel uchel o ddiddordeb ar draws llawer o sectorau ac mae defnyddio'r offeryn ar-lein yn ein cynorthwyo ni i ddadansoddi'r atebion, gan ei gwneud yn bosibl ystyried y materion yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gellir cwblhau'r ymgynghoriad ar-lein drwy gyfrwng Gofod y Dinasyddion:

<https://consult.defra.gov.uk/drinking-water-quality/wc-suite-performance-specifications>.

Fodd bynnag, gellir anfon atebion drwy'r e-bost neu drwy'r post. Mae'n rhaid inni dderbyn yr atebion hyn erbyn 3 Hydref 2022. Yn eich ymateb, dywedwch, os gwelwch yn dda: Eich enw; eich cyfeiriad e-bost; eich math o sefydliad a'i enw; maint y sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli; y rhanbarth yr ydych yn byw ynddo; a fydddech chi'n hoffi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol; a beth yw eich diddordeb yn yr ymgynghoriad.

Anfonwch eich ymatebion, os gwelwch yn dda, at drinkingwaterquality@defra.gov.uk, neu yn ysgrifenedig at Ymgynghoriad Manylebau Perfformiad Switiau Toiled. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Tîm Gwasanaethau Dŵr, Y Llawr Gwaelod, Adeilad Seacole, Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF.

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â'r ymgynghoriad, os oes arnoch angen copi caled neu fersiwn Gymraeg, anfonwch e-bost neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriadau uchod.

2.1 Y gynulleidfa

Croesewir ymatebion i'r ymgynghoriad hwn oddi wrth:

- busnesau sy'n cynhyrchu, gosod at ei gilydd neu'n gwerthu switiau toiled neu gydrannau cysylltiedig,
- busnesau sy'n rhoi prawf ar ffitiadau dŵr,
- cwmnïau dŵr fel gorfodwyr y Rheoliadau,
- cyrff eraill megis cyrff proffesiynol ac aelodaeth, ymgynghorwyr sydd â diddordeb mewn gosod manylebau, dylunio a chynnal systemau dŵr a ffitiadau plymer.

2.2 Cwmpas daearyddol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae Manylebau diwygiedig y Rheoleiddiwr yn ymwneud â chydymffurfriad rhai ffitiadau dŵr, yn yr Alban ag Is-ddeddfau Cyflenwad Dŵr (Ffitiadau Dŵr) (Yr Alban) 2014 ac yng Ngogledd Iwerddon â Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ffitiadau Dŵr) (Gogledd Iwerddon) 2009.

Mae'r alwad am dystiolaeth ynghylch toiledau sy'n gollwng yn edrych am dystiolaeth o Gymru a Lloegr yn bennaf ond croesewid sylwadau o unrhyw fan yn y Deyrnas Unedig.

2.3 Y corff sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal gan dîm Ansawdd Dŵr Yfed Defra ar ran Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

2.4 Cydymffurfio ag egwyddorion ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet. Gellir gweld y rhain yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Os bydd gennych unrhyw gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch hwy, os gwelwch yn dda, drwy'r e-bost i: consultation.coordinator@defra.gov.uk, neu drwy'r post i: Cyd-drefnydd yr Ymgynghoriad, yr Ail Lawr, Foss House, Kings Pool, 1 to 2 Peasholme Green, York, YO1 7PX.

2.5 Cyfrinachedd a gwybodaeth am ddiogelwch data

Bwriadwyd i'r broses ymgynghori hon lynu at yr Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Efallai y caiff gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth. Y rhai pennaf o'r rhain yw Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA). Mae gennym rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIRs, FOIA a DPA, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr neilltuol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i hyn, efallai y caiff ymatebion eu rhannu, eu dadansoddi a'u hadolygu gan gydweithwyr yn Defra a Llywodraeth Cymru.

Os oes arnoch eisiau i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, cadwch mewn cof, os gwelwch yn dda, fod yr Adran, fel awdurdod cyhoeddus, wedi ei rhwymo gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly y bydd efallai dan ddyletswydd i ddatgelu'r cyfan neu beth o'r wybodaeth a roddir gennych. Yng ngoleuni hyn, byddai'n gymorth pe gallech esbonio inni pam yr ydych yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol.

Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynnddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran.

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar wefan y llywodraeth ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Bydd atodiad i grynoded yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd. Gall Defra hefyd gyhoeddi peth neu'r cyfan o gynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Atebwch Gwestiynau 1-8 ar gyfer yr adran hon, os gwelwch yn dda (gweler Atodiad B)

3. Cynigion yr ymgynghoriad

3.1 Cefndir

Fel yr esboniwyd yn adran 1, mae Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 (y Rheoliadau) yn rheoleiddio'r ffordd y caiff systemau dŵr eu dylunio, eu gosod a'u rhedeg. Mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon eu his-ddeddfau a'u rheoliadau cyfatebol eu hunain fel y nodwyd yn adran 2.2. Rhydd Manylebau Rheoleiddiwr ofynion perfformiad a dilysu manwl ynghyd â gofynion gosod yn rhai achosion. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn

drosedd gosod, neu fwriadu gosod, ffitiadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Bydd cwmnïau dŵr, fel y rhai sy'n gorfodi'r Rheoliadau, yn archwilio er mwyn gwirio cydymffurfiaeth.

Ochr yn ochr â'r Rheoliadau, mae hefyd yn ofynnol i rai cynhyrchion gydymffurfio â Rheoliad Cynhyrchion Adeiladu 2011, fel y'i cedwir yng nghyfraith y DU. Rhaid i weithgynhyrchwyr y cynhyrchion hyn ddatgan eu perfformiad i'r safon ddynodedig berthnasol a gosod y marc UKCA arnynt cyn eu rhoi ar y farchnad. Mabwysiadwyd dwy safon ddynodedig sy'n cefnogi cydymffurfio â Manylebau Perfformiad Switiau Toiled; BS EN 997:2012/AC:2012 powlenni toiled a switiau toiled gyda thrap annatod; a BS EN 14055:2010 sestonau dwrlif toiledau ac wrinalau. Mae'r safonau hyn yn cynnwys adeiladu a pherfformiad dwrlif; fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys pob math o swît toiled ac nid ydynt yn nodi unrhyw ofynion atal ôl-lifiad.

Gosodwyd gofynion atal ôl-lifiad ym Manylebau'r Rheoleiddiwr fel rhan o'r Rheoliadau; felly mae angen i ni gadw'r rhain er mwyn sicrhau bod pob swît toiled yn perfformio fel y bwriadwyd iddi wneud a bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu. Gallem ailedrych ar hyn yn y dyfodol os caiff y safonau dynodedig eu diweddarau i gynnwys pob math o swît toiled a dull digonol o atal ôl-lifiad.

3.1.1. Pam mae angen y newid

Tynnwyd sylw cwmnïau dŵr at ôl-lifiad drwy adroddiadau am 'ddŵr glas' yn dod o dapiau defnyddwyr, y lliw sy'n dod o ddefnyddio blociau hylendid toiledau a osodir mewn sestonau toiledau. Ni fwriadwyd i sestonau toiledau storio dŵr o ansawdd dŵr yfed. Gellir storio dŵr a/neu'r cemegau a ddefnyddir, am gyfnodau hir rhwng adegau eu defnyddio, felly gallai'r dirywiad yn y dŵr, oherwydd ei fod wedi bod yn sefyll neu oherwydd presenoldeb cemegau, achosi risgiau iechyd posibl. Er mai isel fu nifer yr achosion (yn fwyaf diweddar, cofnodwyd 9 digwyddiad yn 2019 a 4 yn 2021 gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (ADY), rheoleiddiwr ansawdd dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr), roedd cwmnïau dŵr yn awyddus i fynd i'r afael â'r achos sylfaenol yn hytrach na chywiro'r achosion unigol yn unig.

Sefydlwyd grŵp diwydiant yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant gweithgynhyrchu offer ystafelloedd ymolchi, y diwydiant dŵr a chyfleusterau profi ffitiadau dŵr a chynlluniau cymeradwyo, yn ogystal â Defra a'r ADY. Cylch gwaith y grŵp hwn oedd asesu'r gofynion cyfredol, cynnal ymchwil i'r hyn a fyddai'n atal ôl-lifiad a chynnig ateb. Cymeradwyodd Defra gytundeb gwirfoddol tymor byr a gynigiwyd gan y grŵp diwydiant ar y safonau atal ôl-lifiad ar gyfer gosodiadau toiled newydd tra'r edrychid i mewn i ddatrysiad parhaol.

3.1.2. Casgliadau'r grŵp diwydiant

Casgliadau allweddol y grŵp diwydiant oedd:

- Bod y trefniant atal ôl-lifiad Math AUK1 yn aros heb newid ar gyfer defnydd heb fod yn gysylltiedig â thoiledau.
- Bod gwahaniad o 15 mm rhwng powlen y toiled a'r seston yn amddiffyniad addas.

- Nad oes unrhyw dystiolaeth yn cysylltu'r amddiffyniad rhag ôl-lifiad â'r gwahaniad o 300mm sy'n ofynnol ar hyn o bryd rhwng y gorlif a phowlen y toiled.
- Bod falfiau mewnfa sydd wedi'u ffurfweddu'n gywir ac sy'n cynnig trefniadau bwllch aer Math AC a Math AG yn cynnig amddiffyniad addas rhag ôl-lifiad mewn sestonau toiledau.
- Y gallai hylifau niweidiol o bowlen y toiled, dan rai amodau ac mewn rhai cyfuniadau o gydrannau, lifo i mewn i seston y toiled. Er mwyn lleihau unrhyw debygolrwydd o hyn yn digwydd, argymhellwyd prawf ymarferol.
- Bod rhai mathau o falfiau mewnfa yn cael eu henwi'n anghywir fel rhai Math AC ac yn debygol o fod yn ffactor yn yr achosion o ôl-lifiad.
- Ei bod yn hanfodol rhoi prawf ar gyfuniadau o bowlenni toiledau, sestonau a chydrannau gyda'i gilydd cyn eu defnyddio.

Nododd y grŵp diwydiant a Defra nifer o ddiwygiadau eraill y gellid eu gwneud i Fanylebau'r Rheoleiddiwr i adlewyrchu elfennau newydd yn y farchnad.

3.2 Y prif newidiadau

Er mwyn mynd i'r afael â phroblem hylifau o seston toiled yn llifo'n ôl i ddŵr yfed, gyda'r nod o ddiogelu iechyd y cyhoedd, rydym yn cynnig:

- Cyflwyno trefniant atal ôl-lifiad ar gyfer toiledau'n benodol,
- Gwneud newidiadau sy'n cymhwyso gofynion prawf priodol lle bo'u hangen,
- Gwneud newidiadau i gydnabod datblygiadau arloesol yn y farchnad.

Y Fanyleb ddiwygiedig ar Atal Ôl-lifiad a Manyleb Perfformiad Switiau Toiled fydd y manylebau a gymeradwyir gan y rheoleiddiwr i ddibenion Atodlen 2 y Rheoliadau.

3.2.1 Manyleb ar Atal Ôl-lifiad

Asesodd y grŵp diwydiant y gofynion presennol sydd wedi eu cynnwys yn nhrefniant bwllch aer Math AUK1. Ni chanfuwyd unrhyw gysylltiad rhwng isafswm uchder y gorlif (300 mm uwchlaw lefel gorlifiad powlen y toiled) ac atal dŵr halogedig, o bowlen y toiled, rhag mynd i mewn i seston ddwrlif y toiled. Dywedodd y grŵp na allent ddarganfod pwrpas pendant ar gyfer y gofyniad dimensiynol o 300 mm o fewn trefniant y bwllch aer Math AUK1 ac awgryment y gellid ei adael allan.

Nid oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystyried defnyddiau ar wahân i doiledau lle gellid defnyddio'r amddiffyniad hwn. Felly, rydym yn cynnig cadw'r trefniant bwllch aer Math AUK1 a chreu trefniant atal ôl-lifiad newydd yn benodol i'w ddefnyddio gyda sestonau dwrlif a switiau toiled, a elwir yn fwllch aer Math AUKWC.

Mae arnom eisiau darparu mwy o hyblygrwydd na'r hyn a geir yn Math AUK1, fyddai hefyd yn fuddiol i ddyluniadau mwy modern, ac rydym yn cynnig y byddai'n ymgorffori naill ai bwllch aer Math AG neu Fath AC a bod y gwahaniad oddi wrth lefel gorlifiad bowlen y

toiled yn cael ei fesur at lefel yr hylif gweddilliol mewnol (sef lefel y dŵr sy'n weddill ar ôl tynnu falf y dwrlif).

Fe wnaeth yr ymchwil nodi y byddai mwy o berygl i ôl-bwysau ddigwydd, gyda rhai cyfuniadau o gydrannau, pan gâi'r toiled ei fflyshio. Ni ddaeth i'r casgliad pendant a fyddai dŵr halogedig, o bowlen y toiled, yn cael ei dynnu'n ôl i mewn i'r seston ddwrlif (a allai, pe bai ôl-lifiad yn digwydd o'r seston, ddiweddu yn system ddŵr yfed adeilad) ond dangosodd profion fod rhai cyfuniadau o ffitiadau yn fwy agored i hyn nag eraill. Awgrymodd y grŵp diwydiant y gellid lleihau hyn drwy brofion priodol a chynigiwyd methodoleg ar gyfer profi.

Gan gymryd agwedd ragofalus, rydym yn cynnig defnyddio prawf ychwanegol sydd wedi ei fwriadu i brofi cyfuniadau penodol o gydrannau er mwyn lleihau'r achosion lle gallai fod mwy o risg. Dim ond pan fydd y nodweddion cymhwyso canlynol yn bresennol o fewn trefniant y swît toiled y bydd y prawf hwn yn berthnasol:

- mae falf y fewnfa ddŵr yn ffurfio bwlch aer Math AC; ac
- nid yw'r ddyfais fflyshio yn seiffon a weithredir gan ddiaffram; ac
- nid yw tywalltiad y gorlif y tu allan i'r cynhwysydd sydd yn ei dderbyn (er enghraifft mae'n gollwng i bowlen y toiled neu'r bibell fflyshio).

Bydd yn rhaid i'r rhai sy'n creu switiau toiled cyfan (gweithgynhyrchwyr, manwerthwyr neu eraill), sy'n cynnwys yr holl nodweddion hyn, gynnal prawf ychwanegol i ddangos ei fod yn ddiogel.

Rydym yn cynnig diweddarau'r Fanyleb ar Atal Ôl-lifiad (Atodiad A1) i gynnwys:

- Diffiniad newydd ar gyfer "dyfais fflyshio",
- Dehongliad newydd yn disgrifio'r "Math AUKWC - bwlch aer gyda seston ddwrlif ryngosodedig",
- Cofnod newydd sy'n manylu ar y categorïau hylif mwyaf y gall Math AUKWC amddiffyn yn eu herbyn.

Cynigir taflen cod prawf newydd (2213.20 Math AUKWC cysondeb gorlifiad dimensiynol a mewnol (Atodiad A2)) sy'n nodi'r fethodoleg ar gyfer gwirio dimensiynau bwlch aer Math AUKWC a'r profion cydweddiad cydrannau.

Atebwch Gwestiynau 9 a 10 ar gyfer yr adran hon, os gwelwch yn dda (gweler Atodiad B)

3.2. 2 Manyleb Perfformiad Switiau Toiled

Dyweddodd y grŵp diwydiant fod rhai dulliau profi'r taflenni cod prawf yn cael eu dyblygu ym Manyleb Perfformiad Switiau Toiled (Atodiad A3) ond nad oeddent, mewn manau, yr un fath yn union a bod hyn yn creu amwysedd.

Er mwyn symleiddio, hwyluso eglurder a lleihau amharu ar dai prawf, sy'n defnyddio methodolegau y taflenni cod prawf yn eu hachrediad profi UKAS, rydym yn cynnig tynnu

methodolegau profi allan o Fanyleb y Rheoleiddiwr. Yn lle hynny, lle bo modd, nodi'r gofyniad sydd i gael ei fodloni; y dull profi sydd i gael ei ddefnyddio; a sut mae'r canlyniadau i gael eu dangos.

Mae arnom eisiau rhoi eglurder ynghylch gofynion perfformiad falf y fewnfa a dileu gofynion rhagnodol, fydd yn caniatáu defnyddio falfiau mewnfa sy'n cydymffurfio â fersiynau mwy newydd o Safon Brydeinig BS 1212.

Rydym wedi cynnig ailenwi'r cymal "Atal rhag ôl-lifiad" yn "Gallu gwrth-seiffnad" er mwyn adlewyrchu ei bwrpas yn well ac i leihau drysu gyda gofynion atal ôl-lifiad Paragraff 15 o Atodlen 2 y Rheoliadau.

Mae arnom hefyd eisiau egluro'r diffiniad ar gyfer uniadau ac ailddatgan na chaniateir uniadau islaw lefel gritigol y dŵr o fewn seston ddwrlif toiled. Os byddant yn is, byddant yn cynnig llwybr posibl i halogiad fynd i mewn i gyflenwadau dŵr yfed. Mae lefel gritigol y dŵr yn ffurfio'r lefel datwm y bydd y bwlch aer amddiffynnol yn cael ei bennu oddi wrtho. Cynigir taflen cod prawf newydd (2213.21 Uniadau islaw lefel gritigol y dŵr (Atodiad A4)).

Mae ein cynigion hefyd yn gwneud newidiadau i fod yn llai rhagnodol o ran yr uchder y mae'n rhaid i orlif fod o fewn sestonau dwrlif. Rydym yn cynnig codi'r terfyn uchaf i gyd-fynd â'r llacio a ganiatawyd gan Defra yn 2000 a chan Weinidogion Cymru yn 2001 a lleihau'r terfyn isaf er mwyn gallu canfod yn gynt orlifiadau sydd ar fin digwydd o dan amodau diffygiol. Caiff taflen cod prawf 5011.7 Pibell rybuddio a darpariaeth gorlif (Atodiad A5) ei diweddarau i adlewyrchu hyn.

Yn olaf, rydym yn cynnig tynnu taflen cod prawf 5011.5 Gorlif mesur dimensiwn (Atodiad A6) yn ôl. Ni fydd angen hon gan na fydd y gofynion yn cyd-fynd â'r rhai yr ydym yn eu cynnig mewn mannau eraill a, phe câi ei gadael yn ei lle, gallai greu amwysedd a dryswch.

Atebwch Gwestiwn 11 ar gyfer yr adran hon, os gwelwch yn dda (gweler Atodiad B)

3.2.3 Bwlch aer Math AC

Yn ystod ymchwiliadau, canfuwyd bod falfiau mewnfa yn cael eu disgrifio'n anghywir fel Math AC. Er mwyn dileu amwysedd, rydym yn cynnig ychwanegu eglurder pellach o fewn taflen cod prawf 2213.15 Math AC dimensiynol (Atodiad A7) mai trefniant anfecanyddol yw bwlch aer Math AC sydd â phorth aer agored parhaol. Fel cam rhagofal, rydym yn cynnig nad yw dimensiwn lleiaf y porth aer yn llai na 4 mm, a nodir mewn dyfeisiadau eraill sy'n defnyddio trefniadau mewnfa aer. Ei bwrpas yw sicrhau bod y nodwedd wrth-seiffno yn gweithio'n effeithiol yn ystod amodau diffygiol.

Er mwyn darparu eglurder ychwanegol wrth wirio bylchau aer Math AC, rydym yn cynnig ymgorffori manylion y trefniadau gorlif gan ei wneud yn gyson â Manylebau eraill y Rheoleiddiwr ar gyfer trefniadau bwlch aer megis Math AG.

Atebwch Gwestiwn 12 ar gyfer yr adran hon, os gwelwch yn dda (gweler Atodiad B)

3.3 Mân gywiriadau a newidiadau

Rydym hefyd yn cynnig newidiadau eraill i adlewyrchu datblygiadau newydd diweddar. Lle bo modd, rydym wedi canolbwyntio ar berfformiad yn hytrach na nodweddion disgrifiadol er mwyn caniatáu gosod ystod ehangach o gydrannau, rhoi hyblygrwydd a chaniatáu arloesi yn y dyfodol. Efallai y bydd angen i weithgynhyrchwyr cynhyrchion o'r fath gynnal rhywfaint o brofion i ddangos eu bod yn cydymffurfio, ond bydd yn ei gwneud yn bosibl i'r cynhyrchion gael eu gosod yn gyfreithlon o dan y Rheoliadau.

Fe wnaethom hefyd nodi gwallau trawsgrifio, anghywirdebau a gwahaniaethau rhwng Manylebau'r Rheoleiddiwr ac arferion y diwydiant. Rydym yn cynnig mân ddiwygiadau a, lle bo angen, rydym wedi diweddarau Manylebau'r Rheoleiddiwr a'r taflenni cod prawf perthnasol.

Y taflenni cod prawf y mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt yw 1511.2 Cyfradd Fflysio (Atodiad A8); 1512.12 Golchi powlen (Atodiad A9); 1611.16 Halogi hylif a chadw llifyn (Atodiad A10); a 2212.3 Math AG Gwactod a dimensiynol (Atodiad A11).

Atebwch Gwestiynau 13 a 14 ar gyfer yr adran hon, os gwelwch yn dda (gweler Atodiad B)

4. Effeithiau a thystiolaeth

4.1 Costau ariannol

Rydym wedi amcangyfrif y bydd y newidiadau a gynigir yn golygu cost gros o £3.51 miliwn i fusnesau, yn yr achos gwaethaf.

Wrth gyfrifo'r costau a'r buddion rydym wedi cymryd yn ganiataol: y bydd pob cynnyrch ar y farchnad yn cydymffurfio â'r newidiadau; ac y bydd cyfleusterau profi trydydd parti yn cynnwys unrhyw gostau am brofi yn ôl y dulliau prawf newydd a/neu wedi'u diweddarau fel rhan o gost profi, er enghraifft, offer profi newydd ac achrediad gan Wasanaeth Achredu'r DU.

Rydym wedi asesu costau yn seiliedig ar nifer y cydrannau neu switiau toiled y credwn y bydd angen eu haddasu a'u profi i gydymffurfio â'r newidiadau arfaethedig yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â dod yn gyfarwydd â'r newidiadau. Mae'r achos gwaethaf yn rhagdybio'r nifer fwyaf o gynhyrchion. Yr achos gorau yw 1/3 o'r rhai a nodwyd yn yr achos gwaethaf ac mae pwynt canol rhwng y ddau.

Mae'r rhan fwyaf o'r costau'n ymwneud â newidiadau amddiffyn rhag ôl-lifiad fydd yn atal halogiad ac yn amddiffyn iechyd pobl. Bydd diwygiadau eraill i adlewyrchu dyluniadau cydrannau/toiledau presennol yn arwain at gostau profi ond bydd gallu dangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau i orfodwyr yn dod â manteision hirdymor i fusnesau ac i'w henw da.

Mae Tabl 1 yn crynhoi cyfanswm y costau amcangyfrifedig wedi'u talgrynnu i'r can punt agosaf. Gweithgynhyrchwyr fydd yn gyfrifol am y rhain yn bennaf ond hefyd eraill fel manwerthwyr sy'n cydosod rhannau unigol i ffurfio swît toiled cyfan. Mae'r holl gostau a buddion yn rhai unwaith ac am byth wrth i fusnesau newid i gydymffurfio â Manylebau newydd neu wedi'u diweddarau y Rheoleiddiwr. Ni fydd unrhyw gostau a buddion parhaus ychwanegol.

Tabl 1 Cyfanswm effaith amcangyfrifedig y gost ariannol

Effeithiau	Achos gwaethaf	Pwynt Canol	Achos gorau
Cyfanswm effaith y costau	£3,510,100	£2,340,500	£1,170,300

Rhydd Tabl 2 ddadansoddiad manwl yn ymwneud â chyflwyno'r trefniant atal ôl-lifiad Math AUKWC arfaethedig; a newidiadau i falfiau mewnfa a allai ffurfio bwllch aer Math AC megis sicrhau isafswm maint twll mewnfa aer a dileu cymalau islaw lefel gritigol y dŵr.

Tabl 2 Dadansoddiad manwl o'r costau ariannol a amcangyfrifir

Manyleb y Rheoleiddiwr a disgrifiad o'r newid	Tybiaeth(au) ar gyfer yr achos gwaethaf	Y gost ar gyfer yr achos gwaethaf
<p>TCS 2213.15 - Rhaid i fylchau aer Math AC fod â thwll mewnfa aer o'r maint lleiaf i atal risg o seiffno</p> <p>TCS 2213.21 – Rhaid peidio â chael uniadau o dan linell gritigol y dŵr.</p>	<p>Ystyrir y gallai 29% o'r farchnad falfiau mewnfa greu bwllch aer Math AC.</p> <p>Tybiwyd bod gan yr holl falfiau mewnfa hyn uniadau islaw'r llinell ddŵr, ac nid oes gan 66% o'r rhain ar hyn o bryd dwll o'r maint lleiaf.</p> <p>Felly, bydd angen ailgynllunio ac ailbrofi'r 29% i gyd (37 falf, ailgynllunio yn £50,000, ailbrofi yn £600).</p>	<p>Amcangyfrif ailddylunio = £1,850,000</p> <p>Amcangyfrif ailbrofi = £22,200</p>
<p>TCS 2213.20 – Trefniant atal ôl-lifiad AUKWC Math Newydd a phrawf cydweddu ar gyfer ffurfweddiadau cydrannau penodol o fewn switiau toiled.</p>	<p>Bydd 28% o'r toiledau ar y farchnad yn defnyddio'r trefniant bwllch aer newydd ac yn gofyn am brawf gwerthuso i ddangos eu bod yn cydymffurfio (1,290 am £575).</p> <p>Mae 9% o doiledau ar y farchnad yn defnyddio cydrannau a nodwyd fel rhai sydd angen y profion cydweddu ychwanegol i wirio diogelwch (398 am £575).</p>	<p>Amcangyfrif profi bwllch aer = £741,800</p> <p>Amcangyfrif profi cydweddiad = £228,900</p>

<p>Manyleb Swit toiled 1.1 Perfformiad Falf Fewnfa – sy'n caniatáu gosod falfiau mewnfa a allai greu bwlch aer Math AG i'r safonau BS 1212 mwy newydd.</p> <p>Mae profion yn ffurfio dwyr ran, profi Perfformiad a gallu Gwrth-seiffno (TCS 2212.20)</p>	<p>Mae 14% o'r farchnad falfiau mewnfa o fath y safon newydd, sydd heb gael eu profi'n barod¹ (18 am £600).</p> <p>Mae 43% o'r farchnad falfiau mewnfa y mathau newydd a ganiateir, sydd heb gael eu profi'n barod² (54 am £150).</p> <p>Sylwch, rhoddir cyfrif am falfiau mewnfa a allai greu bwlch aer Math AC yn TCS 2213.15 uchod.</p>	<p>Amcangyfrif profi perfformiad = £10,800</p> <p>Amcangyfrif profi gwrth-seiffno = £8,100</p>
<p>TCS 1512.12 – Dimensiwn wedi cael ei ychwanegu fydd yn caniatáu gosod powlenni toiled heb ymyl</p>	<p>Mae gan 19% o'r toiledau ar y farchnad bowlenni toiled heb ymyl. Cynhelir 1% o'r profion gan dŷ profi trydydd parti (10 am £2,500) a 99% yn fewnol gan y gwneuthurwr (hunan-ddatganiad 874 am £225).</p>	<p>Amcangyfrif profi = £221,700</p>
<p>TCS 1611.16 – Mae angen troelli'r dŵr cyn cymryd sampl i ganfod halogiad gweddilliol gan sicrhau canlyniadau unffurf</p>	<p>Mae'n effeithio ar yr holl switiau toiled ar y farchnad, ac eithrio'r rhai gyda phowlenni toiled heb ymyl y rhoddir cyfrif amdanynt yn TCS 1512.12 uchod. Cynhelir 1% o'r profion gan dŷ profi trydydd parti (38 am £100) a 99% yn fewnol gan y gwneuthurwr (hunan-ddatganiad 3,727 am £30).</p>	<p>Amcangyfrif profi = £115,700</p>
<p>TCS 5011.7 - Gofynion uchder gorlif llai llym a chaniatáu gosod gorlifau heb fod yn gylchol</p>	<p>Bydd angen i 97% o gynhyrchion gorlif ailgadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion uchder (3,652 am £20).</p> <p>Nid yw 3% o'r cynhyrchion gorlif yn gylchol a byddai angen cynnal profion llawn (113 am £620).</p>	<p>Amcangyfrif profi = £73,100</p> <p>Amcangyfrif profi = £70,100</p>
<p>Manyleb Rheoleiddiwr a chostau ymglyfarwyddo TCS</p>	<p>2½ awr y person ar gyfradd gymedrig o £22.94 yr awr³ (yn cynnwys cynnydd o 22% mewn costau llafur heb fod yn gyflog) sy'n gofyn am 7,311.25 awr. Costau yn seiliedig ar</p>	<p>Amcangyfrif ymglyfarwyddo = £167,700</p>

	faint y busnes: 127 Micro a Bach (1 rheolwr / peiriannydd); 397.5 Canolig (2 reolwr / peiriannydd a 4 goruchwyliwr / gweithredwr profion); 37.5 Mawr (3 rheolwr / peiriannydd ac 8 goruchwyliwr / gweithredwr profion).	
<p>Nodyn 1. Cymerir yn ganiataol fod falfiau mewnfa sydd wedi eu rhestru gyda chynllun cymeradwyo cynnyrch trydydd parti wedi llwyddo yn yr holl brofion perfformiad priodol.</p> <p>Nodyn 2. Ni chymerir yn ganiataol fod y prawf gwrth-seiffno, fel y nodir ym Manylebau Perfformiad Switiau Toiled, wedi cael ei gwblhau ar gyfer falfiau mewnfa sydd wedi eu rhestru gyda chynllun cymeradwyo cynnyrch trydydd parti.</p> <p>Nodyn 3. Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, SIC2007 Tabl 16.5a Tâl fesul awr - Gros (£) - Ar gyfer holl swyddi cyflogaion: Y Deyrnas Unedig, 2021 - Gros (£). Y sector aqosaf (cod sector 2342) Gweithgynhyrchu gosodiadau glanweithiol ceramig.</p>		

4.2 Buddion heb fod yn ariannol

Prif fantais y newidiadau arfaethedig yw y bydd gan bob falf fewnfa nodwedd wrth-seiffno gadarn ac y bydd pob swît toiled wedi ei gwneud gyda threfniant amddiffyn priodol rhag ôl-lifiad er mwyn osgoi halogiaid posibl mewn dŵr yfed a diogelu iechyd y cyhoedd.

Byddai newidiadau arfaethedig i adlewyrchu datblygiadau diweddar yn dod â manteision ychwanegol i weithgynhyrchwyr fyddai'n gallu dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Er enghraifft, byddai hyn o fudd i falfiau mewnfa a weithgynhyrchwyd yn unol â'r fersiynau diweddaraf o Safonau Prydeinig BS 1212, gweithgynhyrchwyr powlenni toiled heb ymyl, a chynhyrchion nad ydynt yn bodloni gofynion uchder presennol trefniadau gorlif. Fel yr esboniwyd yn adran 4.1, bydd costau cychwynnol i weithgynhyrchwyr fydd efallai angen cynnal rhywfaint o brofion ar gynhyrchion i ddangos eu bod yn cydymffurfio ond disgwylw'n y byddai'r rhain yn cael eu gorbwyso fel rhai buddiol i fusnesau yn y tymor hir gan na fyddai'n rhaid iddynt chwilio am gydrannau gwahanol.

Mae rhai manteision hefyd o ganlyniad i'r diwygiadau arfaethedig:

- Gellir defnyddio llai o ddeunydd wrth weithgynhyrchu cynnyrch drwy lacio'r gofynion dimensiwn lleiaf ac mae cyfle i fwy o hyblygrwydd yn y ffordd y defnyddir cydrannau a allai o bosibl leihau nifer y gwahanol gynhyrchion a gynigir gan weithgynhyrchwyr.
- Mae potensial ar gyfer lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir/a gollir drwy ostwng uchder gorlif, fyddai'n ei gwneud yn bosibl canfod gollyngiadau'n gynt.
- Mae potensial ar gyfer dewis ehangach o falfiau mewnfa gan gynnwys falfiau sy'n darparu oedi byr dros dro cyn ail-lenwi seston fel nad yw dŵr yn cael ei golli fel rhan o'r fflysiu blaenorol.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw un o'r buddion hyn na'u gwerth ariannol wedi cael eu cyfrifo.

Atebwch Gwestiwn 15 ar gyfer yr adran hon, os gwelwch yn dda (gweler Atodiad B)

5. Cais am dystiolaeth ynghylch toiledau sy'n gollwng

Mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig ym mis Gorffennaf 2021, amlinellodd Defra y camau gweithredu yr ymrwymwyd iddynt i leihau'r galw am ddŵr yn Lloegr. Mae'r gwaith hwn yn rhan o uchelgais y llywodraeth i sicrhau dŵr glân a digonedd ohono. Er mwyn sicrhau gwytnwch cyflenwad dŵr yn y dyfodol mae angen i Loegr leihau ei galw, sydd yn 143 litr o ddŵr y person y dydd ar gyfartaledd ar hyn o bryd. Bydd angen 4,000 miliwn litr ychwanegol o ddŵr y dydd (ml/d) yn Lloegr rhwng 2025 a 2050 i gwrdd â phwysau cyflenwi yn y dyfodol. Bydd rhaid i tua hanner y dŵr sydd ei angen gael ei gyflenwi drwy reoli'r galw (lleihau gollyngiadau, defnydd domestig a dibreswyl).

Mae un mater sydd wedi bod yn dod i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ymwneud â cholli dŵr, sy'n cael ei ystyried yn ollyngiad, trwy doiledau. Mae'r rhain wedi cael eu diffinio fel toiledau sy'n gollwng ac mae dau bwynt methiant posibl wedi cael eu nodi:

1. Y falf fewnfa sy'n methu â selio'n gywir, gan ganiatáu i ddŵr barhau i lenwi'r seston fflysiog, gan greu gorlif dŵr yn y pen draw naill ai i orlif allanol, neu'n fewnol i bowlen y toiled;
2. Mae'r falf fflysiog ar waelod y seston (sy'n rheoli llif y dŵr yn ystod fflysiog) yn methu â selio'n gywir, gan ganiatáu i ddŵr ollwng yn syth i bowlen y toiled.

Mae toiled sy'n gollwng yn gwastraffu rhwng 215 a 400 litr o ddŵr yfed glân bob dydd ar gyfartaledd. Amcangyfrifir bod tua 5 – 8% o doiledau'n gollwng, gyda thua 400 miliwn litr o ddŵr yn gollwng o doiledau'r DU bob dydd. Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r canfyddiad bod cyfran uwch o ollyngiadau mewn toiledau modern gyda mecanweithiau falf fflysiog, a nododd canfyddiadau ymchwil y gallai'r broblem o doiledau'n gollwng waethygu yn y dyfodol wrth i offer ystafell ymolchi gyda thoiledau mwy modern gael eu gosod mewn eiddo hŷn.

Cawsom lawer o ymatebion ar y mater hwn yn ein hymgyngoriad yn 2019 ar gamau i leihau defnydd personol o ddŵr. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ceisio deall ymhellach pa gamau y gallwn eu cymryd mewn perthynas â phroffion a safonau ac i alluogi gweithgynhyrchwyr i leihau gollyngiadau o doiledau yn well.

Atebwch Gwestiynau 16, 17 a 18 ar gyfer yr adran hon, os gwelwch yn dda (gweler Atodiad B)

6. Y camau nesaf

Bydd Defra yn hysbysu Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a'r Undeb Ewropeaidd (UE) (o dan Gyfarwyddeb Safonau Technegol 2015/1535/EC) am ein newidiadau arfaethedig y manylir arnynt yn adran 3.

Bydd unrhyw sylwadau, a ddaw i law o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn ac o ganlyniad i hysbysu Sefydliad Masnach y Byd/UE, yn cael eu hystyried a, lle bo'n briodol, gwneir newidiadau perthnasol i'n cynigion. Amlinellir y rhain mewn ymateb gan y Llywodraeth cyn i Fanylebau'r Rheoleiddiwr a'r taflenni cod prawf terfynol gael eu cymeradwyo a'u cyhoeddi ar GOV.UK. Ar hyn o bryd cedwir taflenni cod prawf ar wefan Water Regs UK.

Rydym yn rhagweld y ceir cyfnod gweithredu, o ddim llai na 6 mis, i alluogi pontio i'r gofynion newydd.

Defnyddir y wybodaeth a ddaw drwy'r alwad am dystiolaeth, yn adran 5, i helpu i lunio'r camau sydd eu hangen i wella perfformiad a gwynnwch falfiau toiledau. Mae'n bosibl y bydd angen ystyried hyn dros dymor hwy ond ni fydd yn gohirio gweithredu'r newidiadau arfaethedig a awgrymir yn adran 3.

Atebwch Gwestiwn 19 ar gyfer yr adran hon, os gwelwch yn dda (gweler Atodiad B)